Gair Bach Bethlehem 2022

RHIFYN 36

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 36 Gorff 20 2022

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Ymhle, ond yn y Gair Bach, cewch chi dudalen flaen ac arni enillydd Côr y Byd, Gwystl Beirut, darpar Bregethwraig a dau ddarpar aelod o'r orsedd?

Sian yn cychwyn ac ennill coron!

Yng nghyfarfod mis Mai Cwrdd Chwarter Dwyrain Morgannwg derbyniwyd cais gan **Sian Meinir,** Bethel, Penarth, i gael ei chydnabod fel Pregethwr Cynorthwyol cydnabyddedig gan y Cyfundeb. Roedd ei chais wedi ei gymeradwyo gan ei mam eglwys, a hefyd ar sail tystiolaeth gefnogol y Parchedig Kevin Davies, y cynigydd, a'r Parchedig Hywel Wyn Richards, yr eilydd. Y cam nesaf oedd trefnu bod Sian yn pregethu mewn tair eglwys er mwyn medru cyflwyno adroddiad gan yr eglwysi hynny i'r Cwrdd Chwarter nesaf ym mis Hydref. **Cychwyn ei thaith oedd ei hoedfa fore Sul diwethaf yma, ym Methlehem.** Mae'r oedfa honno i'w chael ar: https://youtu.be/p098YW8JY9U

Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan yr aelodaeth ym Methlehem yn y Cwrdd Eglwys yn dilyn yr oedfa, yn mynegi ei hynawsedd, ei ffresni a'i didwylledd, a derbyniwyd pleidlais unfrydol o blaid addasrwydd Sian Meinir i fod yn Bregethwr Cynorthwyol cydnabyddedig.

Ar yr un penwythnos, dyfarnwyd coron Eisteddfod Powys iddi am gyfrol o waith creadigol. Llongyfarchiadau a phob bendith iddi ar ei holl waith.

Eilir Owen Griffith (Creigiau bellach) yn derbyn y Tlws gan Terry Waite, wedi i'w gôr, CF1, ennill cystadleuaeth Côr y Byd yn Eisteddfod Llangollen. Llongyfarchiadau iddo ac i'r holl aelodau.

(Mae llun o'r côr cyfan ar dudalen 2).

Ant a Del – i'w hurddo i'r Orsedd yn Nhregaron! Rhagor o fanylion yn y rhifyn hwn



Hefyd yn y rhifyn olaf cyn gwyliau'r haf:
Newyddion / Porthi Pregeth / Pori'r Archif / Rhys ar y ffens! Hel cnau / Odlau'r Garth

Dyma'r oedfaon dros yr haf

Suliau Bethlehem – hyd ddiwedd Medi

*(**am 10:30 a.m**.ym Methlehem; **11.00** a.m. yn Efail Isaf)*

Gorffennaf
24 Marc J. Williams (Tabernacl, Efail Isaf yn ymuno a ni)
31 Oedfa yn Y Tabernacl, Efailisaf (11.00)

Awst
7 Oedfa ym Methlehem (Parchedig Dafydd Owen)
14 Oedfa yn Y Tabernacl, Efailisaf (11.00)
21 Oedfa ym Methlehem (Dr Ian Hughes)
28 Oedfa yn Y Tabernacl, Efailisaf (11.00)

Medi
4 Delwyn Siôn
11 Alun Wyn Bevan
18 Y Parchg Ddr R. Alun Evans
25 Sian Meinir

Cwrdd Merched
cyntaf y tymor, Medi 13
am 1.30.

Sgwrs gan
Betsan Powys.

Recordio ar gyfer
Caniadaeth y Cysegr
Tachwedd 6

Dyma nhw – Côr y Byd – ar ddiwedd eu perfformiad dan arweiniad Eilir Owen Griffith, a chyn iddyn nhw glywed dyfarniad y beirniaid mai nhw oedd yn fuddugol yn Llangollen
Ble mae'r arweinydd yn cael ei holl egni, meddech chi? Bu'n brysur yn paratoi hyn, ynghyd â rhoi ei amser i lwyfannu 'Teilwng yw'r Oen' ym Methlehem, heb son am geisio dod â'r criw bach ohonom yn barod ar gyfer Caniadaeth y Cysegr. Gyda llaw, mae'r recordiad hwnnw wedi ei ohirio tan Dachwedd 6ed – a byddai'n braf cael llawer mwy ohonoch i ymuno yn y canu.

Y Da a'r Drwg.

Delwyn Sion

Tua saith rhes o'r blaen o'n ni, siŵr o fod, pump o gryts swnllyd blêr yn gweiddi "Hwre" neu "Bwwww" yn dibynnu ar bwy oedd ar y sgrin fawr o'n blaen yn Sinema'r Rex yn Aberdâr ar fore Sadwrn. "Hwre" os taw John Wayne ac arwyr y 7th Cavalry oedd yn carlamu dros y bryn i ennill y dydd, "Bwww" os taw'r Indiaid Cochion - y "savages" drwg oedd yno. Profiad cyffredin i lawer ohonom heb os. Yr Indiaid Cochion - yr Apache, y Sioux, yr Arapaho, y Cherokee ac eraill di ri, sydd bellach yn cael eu hadnabod fel y Genedl Gyntaf, The First Nation. A nhw oedd wastod yn colli ar ddiwedd y ffilm yn y matiné, NHW oedd y drwg. "Bwwwww." Ond, fe newidiodd hynny'n 1970 gyda chyhoeddi llyfr Dee Brown, 'Bury My Heart at Wounded Knee', llyfr oedd yn edrych ar hanes y llwythi brodorol o safbwynt wahanol, a daeth rhywfaint o dro ar fyd. Dechreuwyd ystyried hanes a thraddodiadau'r Genedl Gyntaf, cyfaddefwyd, yn gro's gra'n, bod yna anghyfiawnder mawr wedi bod wrth i wledydd "gwareiddiedig" Ewrop - yr Hen Fyd - frwydro am gyfoeth a thiroedd yn y Byd Newydd, a hynny ar draul y llwythi oedd yno'n barod.

Yn ystod y 70au cafwyd caneuon poblogaidd Americanaidd yn adrodd yr hanes, artistiaid fel Buffy St Marie a Jesse Colin Young, ac yn nes adref, yma 'Nghymru cafwyd caneuon gan Hergest a Tecwyn Ifan. Ac ma' niddordeb i yn y Genedl Gyntaf wedi parhau ers y cyfnod yna, a hynny dwi'n siŵr am bo fi'n gweld paralelau amlwg rhwng eu hanes nhw a'n hanes ni - yn bennaf oll, mae'n siŵr, yw'r ffaith syml ein bod ni fel nhw'n leiafrif, a bod ein hiaith a'n diwylliant dan fygythiad yn ein byd newydd. Felly, pan o'n ni fel teulu ar ein gwyliau'n ddiweddar yn yr Unol Daleithiau a Chanada, daeth cyfle i ymweld ag ambell i ganolfan oedd yn ymwneud â'r llwythi brodorol. Nawr, fe allen i eich cadw am oriau; dyddiau hyd yn oed, yn sôn am beth ddysgais i, ond wna'i ddim ("gwd thing" medde chi !) Ond, fel un o frodorion yr hen Forgannwg dwi am dynnu'ch sylw at 3 pheth! Tri dyfyniad gan aelodau o wahanol lwythi. Tri dyfyniad, a'r tri dros gant oed. A'r tri â rhywbeth i ddweud wrthym ni heddiw.

"Sdim amser i'w golli, mae'r Indiaid oedd yn hela'r byffalo'n brysur ddiflannu, ac mae'r genhedlaeth ifanc yn *colli'i hunaniaeth*."

"Pan fydd y goeden ola' wedi'i thorri, y pysgodyn ola' wedi'w fwyta, a'r nant ola' wedi'w gwenwyno - yna fe sylweddolwch bo *dim modd bwyta arian*."

Ac mae'r dyfyniad ola' yn y llun ***(uchod)***. Ie, dyma eiriau'r "savages" ro'wn ni'n "Bwww"an bob bore Sadwrn yn y Rex hanner canrif a mwy yn ôl.

Tybed pwy yw'r da a phwy yw'r drwg erbyn hyn? A phwy yw'r "savages"?

O'r Cwrdd Diaconiaid

Cyfarfu'r Diaconiaid ddiwethaf ar y 27ain o Fehefin 2022.

Croesawyd Delwyn Sion, yn ôl o'i daith i'r Unol Daleithiau, gydag Ann a Meilir, wedi iddynt ymweld â'r teulu yno.

Derbyniwyd adroddiad cynhwysfawr o'i weithgarwch ar ein rhan dros y misoedd diwethaf, ac yn deillio o hynny, a gweddill y trafodaethau, fe nodir y canlynol:-

- Cynhaliwyd cyfarfod teyrnged (preifat i'r teulu yn unig) yn y capel i gofio am Dafydd Huws, Gwaelod-y-garth, ar y 2il o Orffennaf.
- Bod Cyfundeb Dwyrain Morgannwg wedi dynodi Sul y 12fed o Fawrth 2023 ar gyfer Sul y Cyfundeb, a bod union natur yr oedfa i'w drefnu.
- Gohiriwyd recordio Caniadaeth y Cysegr ar Sul y 10fed o Orffennaf, a bellach mae'n fwriad i gynnal y digwyddiad ar Sul y 6ed o Dachwedd.
- Bydd Delwyn yn trafod y posibilrwydd o ail-ddechrau CAIB, sef Clwb Ieuenctid Bethlehem, gyda rhieni'r plant hŷn, wedi'r haf.
- Bydd angen sefydlu Is-bwyllgor i drefnu gweithgaredd yn ymwneud a dathlu 150 mlynedd adeiladu'r capel presennol (a 191 mlynedd ers sefydlu'r achos), wedi'r haf, gyda'r dathliadau i gymryd lle yn ystod mis Mehefin 2023. Nodwyd y bydd costau ychwanegol yn deillio o drefnu'r dathliadau!
- Cytunwyd i bleidleisio dros elusen leol i'w chefnogi am dymor 2022/24 ar Sul y 17eg o Orffennaf 2022, gyda'r dewis o'r tair elusen ganlynol:-

  The Wallich, Tŷ Hafan a Chymdeithas Alzheimer Cymru
- Byddai angen i gefnogwyr elusen Plan International gwrdd i benderfynu ai parhau eu cefnogaeth neu drosglwyddo eu teyrngarwch i gyfeiriad gwahanol fyddai eu dymuniad.
- Cytunwyd i barhau'r gefnogaeth i baratoi te i'r anghenus yn y Tabernacl, yr Ais, er mai niferoedd bychan oedd wedi dychwelyd yno ers ail-afael yn y ddarpariaeth wedi'r cyfnod clo. Gwerthfawrogwyd parodrwydd Ian ac Ann Hughes i drefnu'r cyfan ar ran Bethlehem.
- Gwerthfawrogwyd yn ogystal y cyfraniadau i'r Banc Bwyd ers ail-ddechrau'r casgliadau ym mis Ebrill.
- Mynegodd Delwyn ei ddyhead i ystyried agor y Festri ar gyfer trigolion y pentref yn ystod y gaeaf nesaf, gyda darpariaeth ar gyfer paratoi te a choffi ar eu cyfer a chynnig lle clyd i dreulio rhyw orig neu ddwy.
- Byddai Delwyn yn ail-ddechrau gydag ymweliadau wyneb-yn–wyneb a'r aelodau, yn ôl y galw, o fis Medi ymlaen.
- Cydnabuwyd y gwaith distaw a di-stŵr a wneir gan nifer o gyfeillion o fewn y capel yng nghyd-destun yr adeiladau a'r tir o amgylch, a gwerthfawrogwyd yn fawr y gwaith a wnaethpwyd er sicrhau bod seddau'r galeri hefyd wedi eu paentio erbyn hyn.
- Mae cynllun newydd i oleuo'r capel dan drafodaeth ac mae cyfarpar sain newydd wedi ei archebu ac yn debygol o gyrraedd erbyn dechrau'r tymor newydd,
- Mynegwyd dyhead i weld dodrefn newydd yn cael eu pwrcasu ar gyfer y Festri, a rhoir ystyriaeth i gael piano trydan yno hefyd yn fuan.
- Cydnabuwyd gwaith y Trysorydd, gyda chymorth Huw Lloyd a Lowri Clement, yn gwirio Cyfrifon 2021/22, gan yn ogystal werthfawrogi cefnogaeth barhaol a hael yr aelodaeth i'r coffrau.
- Nodwyd gyda diolch barodrwydd Mair John i gymryd gor-olwg o'r trefniant presennol yng nghyd-destun gwarchod plant ac oedolion bregus er sicrhau cyd-ymffurfio ar rheoliadau

cyfredol. (Mae Emlyn Davies, Cadeirydd presennol y Panel Diogelwch Cydenwadol wedi adrodd eu bod yn diwygio a thynhau rhannau o'r llyfr canllawiau diogelwch ar hyn o bryd.)

- Derbyniwyd llythyr ymddiswyddiad o rengoedd y Diaconiaid oddi wrth Eirlys Davies (Radur). Cydnabuwyd a gwerthfawrogwyd ei chyfraniad hael a di-flino dros y blynyddoedd, fel Diacon, a chyn hynny fel gwraig i'n cyn-weinidog, y diweddar Barchedig T J Davies.
- Nodwyd bod "Heulwen dan Gymylau – Llawlyfr Ymgyrch Eglwysi Dementia-gyfeillgar" i'w lawnsio yng Nghyfarfod Blynyddol Undeb yr Annibynwyr ym mis Gorffennaf.
- Nodwyd bod Ysgol Gynradd Gwaelod-y-garth wedi caniatáu defnydd o'r maes parcio ar y Sul gyda'r amod ein bod yn gyfrifol am agor a chau y giatiau wedi'r oedfaon.
- Nodwyd i un o aelodau Bethlehem, Gwyn Roberts, gyflwyno sgwrs am Gapel Celyn a Thryweryn ar Fai y 6ed fel rhan o ddarpariaeth Bethlehem i Gylch (Llenyddol) Cadwgan. Mae gwahoddiad i Fethlehem drefnu noson gyffelyb ym misoedd Medi / Hydref 2022 ar gyfer y tymor newydd.
- Bydd y Diaconiaid yn cwrdd nesaf ar nos Lun y 10fed o Hydref 2022.

Rhodri-Gwynn Jones,
Ysgrifennydd Bethlehem, Gwaelod-y-garth

NEWYDDION...

- Rydyn ni fel eglwys yn cydymdeimlo â **Meira Ellis Owen** a'r teulu, **Creigiau**. Collodd Meira ei chwaer, Menna Owen, oedd yn byw yn ardal ei mebyd yn y Gogledd.
- Dymunwn wellhad buan i'r **Dr Huw Edwards, Yr Eglwys Newydd,** gafodd anhap tra ar ei wyliau'n ddiweddar. A da gweld fod aelodau eraill fu'n absennol wedi'r Covid wedi dychwelyd i'n plith.
- Dymunwn ddiolch i Eirlys Davies, Radur, am ei holl waith fel diacones ar hyd yr holl flynyddoedd. Fel gwewlch o'r cofnodion uchod, mae hi bellach wedi mynegi ei dymuniad i ymddiswyddo o'i chyfrifoldebau.
- Mae rhywun neu'i gilydd yn cael ei benblwydd bob mis, wrth reswm. (Fe wyddom am rai, tra bod eraill yn cadw'n dawel!) Ymhlith y rhai y gwyddom fu'n nodi degawdau penodol yn ddiweddar roedd:
  - **Rhiannon Ifans, Yr Eglwys Newydd**
  - **Ann Jones, Pentyrch**

  Penblwydd hapus i'r ddwy – ac os gwyddoch chi am fwy, yna rhowch wybod erbyn y rhifyn nesaf!
- O.N. Ymddiheuriadau'r golygydd, yn rhannol ar ran y rhaglen "awtogywiro". Penderfynodd y naill neu'r llall or-gywiro "ie-ie" yn erthygl Gwilym Williams y tro diwethaf. "Ie Charamel" ymddangosodd! Dylai'r euog un ddwbl-ddarllen erthygl R Alun ar borthi pregeth y tro hwn!

* * * * * *

YR ELUSEN LEOL NEWYDD

Cymdeithas Alzheimer Cymru

Yn dilyn y bleidlais yn gynharach y mis hwn, Cymdeithas Alzheimer Cymru oedd y dewis ddaeth i ben y rhestr fel ein helusen leol. Darllenwch ragor am eu gwaith ar:

(Cymraeg | Alzheimer's Society (alzheimers.org.uk))

Mae'r Gymdeithas yn darparu cymorth hanfodol, ac yn rym sylweddol er gwell, i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan ddementia – boed yn ddioddefwyr, ynghyd â'r rhai sydd a gofal dros y dioddefwyr - yn bartneriaid, teuluoedd a ffrindiau.

I'r wisg werdd yng Ngheredigion

Cafodd Prif Weinidog Cymru gryn sylw'n ddiweddar am ei fod i gael ei urddo gan Orsedd y Beirdd yn Nhregaron. Ond teg nodi, bod dau o aelodau ein heglwys ni, eglwys sydd yn etholaeth Mark Drakeford, hefyd yn cael esgyn i'r Maen Llog yn Nhregaron eleni. Dyna chi – Anthony Evans a Delwyn Sion. – dau sydd wedi gorfod aros am dros ddwy flynedd i gael eu hanrhydeddu! Ond mae'r ddau'n parhau i ffitio'r ganmoliaeth roddwyd iddyn nhw pan wnaed y cyhoeddiad gyntaf, fel gwyddom yn dda! Mae'r ddau'n byw yn yr Eglwys Newydd, er bod y naill o Cross Hands a'r llall o Aberdâr.

Anthony

Mae Anthony yn gyn bennaeth celf Ysgol Glantaf, yn ddarlunydd llyfrau plant, ac yn arlunydd gwleidyddol a gefnogodd ymgyrch streic y glowyr a'r mudiad gwrth-apartheid. Bu'n weithgar dros Glwb y Bont, yn ysgrifennydd Sir i UCAC, ac mae'n un o sylfaenwyr Cwmni Artistiaid yr Hen Lyfrgell, Oriel Canfas ac Elusen Awen. Mae'n artist proffesiynol ers 30 o flynyddoedd. Fel actor, mae wedi perfformio gyda Chwmni Drama Y Fuwch Goch, Clwb Ifor Bach, a Chwmni Drama Capel y Crwys, yn ogystal ag ymddangos yn ei bantomeimiau teuluol yn yr Eglwys Newydd i godi arian i'r Eisteddfod Genedlaethol. Ni fu'n brin ychwaith o ymddangos yn nramâu Nadolig Bethlehem.


Delwyn

Fel artist cerddorol a chyfarwyddwr rhaglenni teledu y mae rhai'n adnabod, Delwyn, ein harweinydd yma ym Bethlehem. Rydyn ni'n parhau i gael ambell berfformiad o'i glasuron, ond mae iddo ochr arall i'w weithgareddau. Fe'i hanrhydeddir am ei waith gydag elusen Bobath. Bu'n rhan o sefydlu cangen yng Nghymru o'r elusen sy'n gweithio i wella ansawdd bywyd plant â pharlys yr ymennydd a chyflyrau niwrolegol cysylltiedig. Erbyn hyn, mae canolfan therapi arbenigol yng Nghaerdydd, a thros y blynyddoedd mae Delwyn wedi codi llawer o arian i'w chefnogi.

PORTHI PREGETH

R Alun Evans

Dai Bili Bach. Fel'na y cofia i'r enw. Un waith erioed y gwelais i Dai Bili Bach ond fe'i clywais droeon yn ystod yr oedfa honno yn yr Hen Gapel, Llanedi.

Un o blant Diwygiad 04/05 oedd Dai. Eisteddai yn sedd gefn y capel. Roeddwn i wedi mynd gyda nhad o Lanbryn-mair i lawr "i'r Sowth" yn fuan wedi diwedd yr Ail Ryfel Byd. Fe fyddwn i, felly, yn naw neu ddeg oed. Nhad yn pregethu yn y capel lle cafodd ei ordeinio yn 1924 fore a nos, sef Capel Newydd, Yr Hendy. Yn y pnawn, pregethai yn Llanedi gerllaw.

Eisteddwn i ryw hanner ffordd i lawr y capel. Yn ystod y bregeth dechreuodd Dai Bili Bach weiddi'n orfoleddus "Mawr fyddo enw yr Arglwydd", "Clod, clod i Dduw", "Diolch iddo fyth am gofio llwch y llawr", "Bendigedig yw Iesu, y Gwaredwr" ... ac felly ymlaen am weddill yr oedfa. Profiad newydd i mi oedd hwn. Chlywais i erioed neb yn yr Hen Gapel, Llanbryn-mair yn porthi. Ambell i 'Amen' yn ystod y weddi efallai. Ond roedd y cyfeiliant hwn o borthi yn brofiad gwahanol a thân y Diwygiad, ddeugain mlynedd ynghynt, yn dal i losgi yng nghalon Dai Bili Bach.

Unwaith erioed y profais i'r porthi hwn o bulpud. Pan fyddwn i, fel myfyriwr ym Mangor, yn pregethu yn Horeb, Mynytho, byddai un gŵr yn y gynulleidfa honno yn porthi'n uchel "Hosanna ... Haleliwia ..." A wyddwn i ddim sut oedd ymateb. Cario 'mlaen, fel 'tae dim wedi digwydd? Ond roedd rhywbeth wedi digwydd, a hwnnw'n rhywbeth prin ryfeddol.

Byddai profiad Pentecostalaidd fy nghyfaill o seiciatrydd, Dr David Enoch, a'r capel Apostolaidd ym Mhenygro's, Sir Gâr, yn dra gwahanol. Cofiai sawl un yn porthi. A doedd dim yn anghyffredin i gael rhywrai yn y sêt fawr yn "bwrw mâs i ganu" emynau fel 'A welsoch chi Ef'. Byddai hynny, wrth gwrs, yn newid deinameg yr oedfa yn llwyr.

Cefnogi neu gymeradwyo'r pregethwr oedd amcan y porthwr; yr hyn a eilw'r Sais yn 'supportive interjection". Dwi'n amau'n fawr na fu hyn yn draddodiad ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, a hynny'n bennaf oherwydd arddull y Parchedig R. G. Berry a ordeiniwyd yma yn 1897 Ond doedd Berry, er yn ddramodydd medrus, ddim yn bregethwr dramatig. "Nid oedd Berry yn bregethwr cyrddau mawr a Chymanfa" yn ôl Wil Ifan, Daeth y llenor Jack Jones i wrando arno gan "aros i glywed sŵn y tyrfe, a'r tyrfe ddim yn dod".

John Phillips, un o deulu enwog y Philipiaid ym Methlehem, yn teithio i Bontypridd i wrando ei weinidog mewn cynhadledd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a Berry yn annerch ar 'Piwritaniaeth a'r Neges Heddyw [sic]". "Syfrdanwyd cynulleidfa fawr gan wreiddioldeb a dysg a huodledd y siaradwr." Ar ddiwedd y cyfarfod roedd pawb yn chwilio amdano a dod o hyd iddo "mewn congl dywyll o'r 'waiting room' yng ngorsaf Pontypridd "yn ymguddio rhag pob clod."

Yn y gyfres o ysgrifau newyddiadurol 'Sunday Sketches in Wales' cyfeirio y mae Sam Jones [BBC] at arddull Berry fel "a conversational style". Charles Davies, ar y llaw arall, yn gwrando ar Berry yn pregethu yn Abertridwr a'r tro hwnnw yn mynd i hwyl. "A dyna rhyw ddiacon yn y sêt fawr yn neidio ar ei draed mewn cyfaredd".

Mae Berry ei hun yn cofio'r cyfnod hwnnw yn ei bregethu lle'r oedd "gogwydd at y strôc yn cryfhau; sgweier balch fy nghalon yn fy mygwth." Ac fe rown i'r gair ola' iddo. Ystyriai Ddiwygiad 04/05 yn "ysfa i gadw'r uwd i ffrwtian yn y crochan." 'Amen' meddwn innau.

O'r Archif –

Bethlehem ym misoedd Awst 1877 – 1880

Rhodri-Gwynn Jones

O gofio mai yn 1873 yr agorwyd yr adeilad presennol, er i'r achos ei hun gychwyn yn 1832, mae'r canlynol, sy'n gofnod o ddigwyddiad ym mis Awst, blynyddoedd 1877 hyd 1880, yn ddiddorol (er ychydig yn ail-adroddus) gan ei fod yn cynnig golwg ar y bwrlwm oedd yn yr ardal bryd hynny.
Mae'r niferoedd sydd yn cael eu sôn amdanynt – "amryw gannoedd" [1877] yn syfrdanol, a pharti yn cael ei grebwyll fel "gwyl de"!
Mae'r "eisteddfod" hefyd yn haeddu sylw – y dewis o adroddiadau a chaneuon, ac wrth reswm thema'r ysgrif – tybed beth ddaeth o astudiaeth Mrs Powell, Pentyrch?
Ar y 6ed o Ragfyr 1875 y bu'r danchwa yng Nglofa'r Lan, pan gollwyd 12 o fywydau, ac eto'n ddiddorol mae lle amlwg i Arolygwyr y Lofa a'r Ffwrnes Blast yn y ddigwyddiadau [1880]. A T.W Booker & Co. oedd y perchnogion [1878]. Yn y danchwa, bu farw Abraham Phillips, 53 mlwydd oed, "overman" y lofa, gan adael gwraig yn weddw, a chwech o blant heb dad. Un o'i ddisgynyddion ydi Ann Grey, a bu hi a'r teulu yn aelodau ffyddlon yn ein mysg yma ym Methlehem yn y gorffennol.
Beth tybed oedd arbenigedd Gwilym Ddu o Went a fu'n beirniadu yn 1877, a pham y newid o "eisteddfod" i "gyngerdd" yn ystod y cyfnod yma? A beth oedd yn "hardd" yng ngolwg Joseph Millward [1878]?
"Datganwyd *'Y gân a gollwyd'* gan Mr E.Thomas (Eos y Garth) yn neillduol o dda." [1880] Byddai T W Thomas, Pentyrch, y mab, yn ddi-os wedi ei blesio gan y sylw yma, ac ymfalchïai yntau o gael ei adnabod fel "Ab Eos" o'r herwydd!
A beth ddigwyddodd i "*Drum and Fife Band, Gwaelod-y-garth*" tybed?
Ac ie, fel Bethlehem, Pentyrch y cyfeirid at Fethlehem, Gwaelod-y-garth bryd hynny.
Os gwyddoch ateb i ambell i gwestiwn, neu os oes sylw gennych am unrhyw beth yn yr hyn sy'n dilyn, yna rhowch wybod, neu'n well fyth , rhowch bin ar bapur ar gyfer rhifyn nesaf y "Gair bach"!

Bethlehem, Pentyrch

(O'r "Tyst a'r Dydd" 24ain o Awst 1877 (tud 7))

Dydd Llun, Awst y 13eg, cynhaliodd Ysgol Sabothol y lle uchod ei gwyl de flynyddol, a chan bod yr hin mor deg, cafwyd benthyg cae cyfagos er cynnal y wledd. Daeth amryw gannoedd ynghyd er cyfranogi o'r danteithion. Wedi cydyfed o'r te, aethpwyd tua'r capel er cael rhan o'r wledd oedd yno, sef Cystadleuaeth mewn barddoniaeth, traethodau, canu, adrodd, ac areithio. Beirniad y traethodau etc. [oedd] Mr W. G. James (Gwilym Ddu o Went), Ffynnon Taf; y canu [oedd] Mr John Phillips, Pentyrch. Wedi cael anerchiad gan y Llywydd a'r beirdd, aethpwyd ymlaen a gwaith y cyfarfod yn y drefn ganlynol:- Adrodd "Heb ei fai heb ei eni"- un yn cynnig a chafodd y wobr; Canu "Merch Megan" – dwy yn cystadlu – gorau Margaret Davies, Garth Hill; Chwe pennill ar "Cyn dechrau gwêl y diwedd" – daeth pedwar cyfansoddiad i law – gorau Mr Llewelyn Llewelyn, Gwaelod-y-garth; Canu "Ym mreichiau fy Ngwaredwr" – i barti o ddeuddeg – dau yn cystadlu – gorau Mr W Williams a'i barti, Gwaelod-y-garth; Adrodd "Troi'r cleddyfau yn sychau" – un yn treio, a chafodd wobr; Canu "Dorcas" - i'r rhai dros ddeugain oed – tri yn cynnig – gorau Mr Charles Davies, Gwaelod-y-garth; Adrodd o "Yr Ystorm" (Hwfa Môn) – tri yn cynnig – rhannwyd y wobr rhwng Mr Harry Edwards, Tongwynlais, a Mr John Thomas, Ffynnon Taf. Canu "Dewrder y Milwr" o Deg o Ganeuon – pump yn cystadlu – gorau Mr John Thomas, Ffynnon Taf. Canu tôn ar y pryd – tri yn cynnig – goreu Mr W Williams, Gwaelod-y-garth; Traethawd ar y "Dilyw a'r Arch" – cyfyngedig i ysgol y lle; daeth pedwar cyfansoddiad i law a derbyniasant ganmoliaeth uchel gan y beirniad, ond y gorau oedd eiddo Mr Howell M Howell (Seisonig) Gwaelod-y-garth; Areithio difyfyr – 5 yn treio – gorau Mr Richard Davies, Gwaelod-y-garth; Canu "Cartref yn y Nef" – i gôr o blant – un côr ddaeth ymlaen, sef côr y lle, dan arweiniad Mr Williams, a chafodd y wobr. Rhoddwyd gwobr hefyd gan Mr John Phillips am yr ysgrif orau ar "Pa bryd y dechreuodd milwyr Lloegr wisgo cot goch? O dan deyrnasiad pwy? A pha fath wisg oedd ganddynt cyn hynny?" – Un cyfansoddiad ddaeth i law, sef eiddo Mrs Powell, Pentyrch, a chafodd wobr. Dygwyd gwaith y dydd i derfyniad yn foddhaol i bawb. Yr oedd yr elw oddi wrth y cyfarfod yn myned er cael llyfrau gwobrwyon i blant y Band of Hop

EHEDYDD

(parhad ar y dudalen nesaf)

Bethlehem, Pentyrch.

(O "Y Tyst a'r Dydd" 23ain o Awst 1878 (tud 12))

Dydd Llun Awst 12fed, cynhaliodd deiliaid Ysgol Sabbothol y lle hwn ei gwyl flynyddol, yng nghyd a'i chyfarfod adroddiadol. Cynhaliwyd yr wyl de eleni mewn ysgoldy perthynol i Mr T W Booker & Co, sydd o dan addoldy y Bedyddwyr yn y lle hwn. Erbyn 3 o'r gloch daeth tyrfa lluosog iawn ynghyd o bobl i fwynhau o'r wledd ddanteithiol a baratowyd ar eu cyfer. Digon yw dywedyd i ni gael gwledd o'r fath orau. Wedi gorffen y wledd hon aethom yn dyrfa fawr yng nghyd tua'r capel i fwynhau gwledd o natur wahanol. Dechreuwyd y cyfarfod am saith o'r gloch trwy ganu tôn gynulleidfaol. Yna adroddwyd y 7fed bennod o Luc gan Mr Daniel Phillip, a gweddïwyd gan y Parch M C Morris. Yna anerchiadau gan y beirdd ac adroddiadau gan yr ysgol, a chanwyd amryw o donau chwaethus ganddi o dan arweiniad Mr William Williams. Hefyd datganwyd 2 o ddarnau rhagorol ganddo ef a'i gwmni, ynghyd a deuawd "Dring, dring i fyny". Hefyd cafwyd unawd ganddo ef a Mr Samuel Thomas. Yna cafwyd areithiau buddiol gan Mr Gomer Thomas a Joseph Millward, y cyntaf ar "Pa fodd i dreulio oriau hamddenol", a'r olaf ar "Beth sy'n hardd". Terfynwyd trwy i'r Côr ganu "Jerusalem, fy Nghartref wiw". Bwriedir o hyn allan gynnal cyfarfod pob chwarter i newid athrawon yr Ysgol, ac un wyl fel hon ar ddiwedd y flwyddyn. Llywyddwyd y cyfarfod yn ddeheuig gan y Parch M C Morris, gweinidog y lle.

GARTHFAB

Bethlehem, Pentyrch

(O "Y Tyst a'r Dydd" 27ain o Awst 1880 (tud 5))

Dydd Llun Awst 9fed cynhaliodd Ysgol Sabbothol y lle uchod ei gwyl de flynyddol, ynghyd a'i chyfarfod adroddiadol, a da gennym hysbysu ein bod wedi cael gwledd ddanteithiol dros ben. Darparwyd yn helaeth, fel yr oedd digon o bethau er ei chynnal yn drefnus a chysurus wedi dod i mewn eleni, fel arfer, a gweddill hefyd. Cynhaliwyd yr wyl ar gae D John, Ysw., Ynysgau, yr hwn sydd bob amser yn barod i roddi yr hyn allo at ein gwasanaeth. Ar y cae hefyd yr oedd "*Drum and Fife Band, Gwaelod-y-garth*" yn chwarae, o dan arweiniad y gwr ieuanc talentog Mr W Williams, a chwaraeasant yn fedrus iawn ag ystyried mai newydd gychwyn oeddynt. Ar ôl gorffen gyda'r te, chwaraeasant trwy'r pentref o flaen yr ysgol. Wedi hyn aethpwyd i'r capel i gael gwledd i'r meddwl a chawsom wledd ardderchog. Er fod y cyfarfod hwn dipyn yn wahanol i'r lleill gynhaliwyd yma, yr oedd yn well yn ei amcan. Nid adrodd a chanu gwahanol ddarnau ar wahanol destunau, ond adrodd a chanu gwahanol ddarnau ar yr un testun, sef "Y Messiah i Blant" gan Mr H Davies A.C. Garth. Aethpwyd trwy'r gwaith yn dda neilltuol. Chwaraewyd ar y berdoneg gan Mr W H Mills, Pontypridd. Heblaw y darn uchod, chwaraeodd yr "Hallelujah Chorus" ac Alawon Cymreig. Datganwyd "Y gân a gollwyd" gan Mr E.Thomas (Eos y Garth) yn neillduol o dda. Gwnaeth Mr Mills ei waith, fel arfer, er boddhad, a chafodd gymeradwyaeth uchel am ei fedrusrwydd. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mri T Phillips, Arolygwr Glofa'r Lan, Pentyrch, a E Watkins, Arolygwr Ffwrnes Blast yr un lle. Y mae y ddau fonheddwr uchod yn haeddu clod am eu medrusrwydd yn Llywyddu, a chafwyd areithiau byr, ond cymeradwyol, ganddynt. Felly terfynwyd un o'r cyfarfodydd adloniadol gorau a fûm ynddo erioed.

Y Gair Bach nesaf?

Sut byddai dyddiad cau tua

Medi 30

yn eich siwtio?

Bydd hynny'n rhoi cyfle i chi hel meddyliau, eu twtio ac yna ysgrifennu gair i'n rhifyn nesaf.
Peidiwch bod yn swil. Mae gan bawb ei stori.
Eich gwyliau /profiadau / atgofion / hoff bethau / cas bethau?
A rhowch wybod am unrhyw garreg filltir i chi, y teulu neu gydnabod. *Pl î î î î î î î î î s !!!*

Ifan Roberts - tycnau@aol.com

Cnwd Cynnar

Ifan Roberts

I'r rhai sydd weithiau'n holi pam mai "Tŷ Cnau" ydy'r enw ar ein cartref, dydw i ddim erioed wedi gallu rhoi eglurhad llawn iddyn nhw. Gwir fod yna ddegau o goed cyll o fewn cyrraedd pan wnaethon ni symud yma ddeg mlynedd ar hugain yn ôl, ond y "Cupressus Leylandii" bygythiol oedd y tyfiant mwyaf amlwg yn un rhan o'r ardd (a rhes o goed coed criafol llawn ffrwyth yr ochr arall.)

Roedden ni'n tybio mai cyn berchennog di-Gymraeg oedd wedi bedyddio'r lle mewn hanner jôc ddwyieithog. Neu fod rhywun wedi ail-enwi'r lle'n ddiweddarach

Gwaetha'r modd, wnes i ddim holi y ddiweddar Mrs French, oedd yn dal i fyw gerllaw, yn hen ffermdy Cefn Bychan ar y pryd. Nac ychwaith, Mrs Williams, Graig Goch, i'r cyfeiriad arall. Ar dir Mrs French, ymhell wedi iddi hi roi'r gorau i'w rownd laeth bentrefol, y daeth mam a thad Tom Jones a hanner dwsin o deuluoedd eraill i ystâd o dai newydd Clos Cefn Bychan, ond roedd yn amlwg fod rhai o'r hen resdai wedi cael llonydd, gan gynnwys ein patshyn o dir ni.

Yr heol hon oedd yr hen ffordd drol tua'r pentref o gyfeiriad Gwaelod-y-garth. Dri drws i ffwrdd oddi wrthym mae Ruth, un o'r rhai faged yn 'Graig Goch', y tŷ olaf i gyfeiriad 'Y Gwaelod', wedi dychwelyd i'w hen gartref ond dydi hi ddim yn cofio os oedd yma dŷ fan hyn cyn i hwn gael ei godi.

Ond – gadewch i mi fynd yn ôl at fy nghoed (mewn mwy nag un ystyr!) Dros y blynyddoedd bu'n rhaid codi ambell un o'r criafol wrth i'r gwreiddiau ymestyn a chreu hafoc ac maen nhw i gyd, ynghyd â'r pum Leylandii anferth, bellach wedi mynd.

Ac yna - gwyrth o'r gwyrthiau – heb unrhyw help gennym ni, dychwelodd ambell gollen. Ac eleni, mae yna glystyrau anferth o gnau cyll i'w gweld ym mhobman – a hynny cyn canol mis Gorffennaf.

Nawr, wn i ddim sut atgofion sydd gennych chi o fynd i "hel cnau" os oeddech chi'n digwydd byw mewn ardal gyforiog o goed cyll. Adre, yn Llanddona, roedd coed fferm 'Y Wern' yn lle gwych am gnau cyll, a choed 'Baron Hill' am gnau castan a choncyrs. Digon i bawb a mannau gwych i gael antur am ddiwrnod, heb orfod dibynnu ar unrhyw ddyfais ddigidol i'ch diddanu.

Ond ai fi sy'n drysu neu a ydy'r tymor cnau yn llawer cynharach yn y flwyddyn bellach? Mae'r llun uchod wedi ei dynnu yn hanner cyntaf Gorffennaf ac rwy'n ofni, os arhosaf tan dymor yr Hydref-go-iawn, y bydd y wiwerod lleol wedi ennill y blaen arna i.

Oes, y mae yma wiwerod deheuig iawn, rhai all gnoi drwy wifrau mân y cewyll bwydo adar mewn chwinc. Mae'n debygol iawn y bydd fy nghynhaeaf mwyaf llwyddiannus yn Nhŷ Cnau wedi ei ysbeilio ymhell cyn daw hi'n adeg arferol i 'hel cnau'. Ond dyna fo – y wiwerod blannodd y coed cyll newydd, reit siŵr i chi!

“Here today - gone to Nara”

Rhys Powys

Dwi’n paentio’r ffens... unwaith eto! Bydd darllenwyr ffyddlon “Bwletin Bethlehem” yn cofio mai Ebrill 2020 oedd hi pan baentiwyd hi’r tro d’wethaf, yng nghanol y “clo” cyntaf. Fe ddewisais baent arbennig y tro hwnnw - “Guaranteed for 5 years”! Wel, rhaid i fi gael gair gyda rhywun oherwydd ychydig dros ddwy flynedd yn ddiweddarach mae’r haul a’r dail a’r glaw wedi gadael eu hôl gan fy ngorfodi i godi’r brws paent unwaith yn rhagor.

“Pam na nei di wrando ar y radio?” “Wyt ti eisiau benthyg ‘headphones’ i wrando ar gerddoriaeth”? Dwi’n gwrthod y ddau gynnig. Mae’n well gen i wrando ar yr adar, y pryfed, y plant yn chwarae yn y parc ar ddiwedd dydd - a sŵn llais y wraig drws nesaf yn swnian wrth ei gŵr.

Does dim gwadu fod paentio ffens yn waith undonog a diflas ac, o dipyn i beth, mae’r rhyw rhythm corfforol yn datblygu a’r meddwl, wedyn, yn dueddol o grwydro. Yn fy achos i, fel sy’n digwydd yn aml, daw atgofion yn ôl o’r cyfnod y bum i’n teithio yn Japan - a’r profiad penodol o wneud gwaith undonog a diflas yn y wlad honno...

Ebrill 1986.

Ymhell cyn dyddiau Google Maps, y llyfr teithio “Lonely Planet” oedd ‘beibl’ y ‘back-packers’ a byddai teithwyr yn trefnu’u hanturiaethau tramor gan ddilyn cyfarwyddiadau manwl y llyfr hwnnw. Sut i fynd o un dinas i’r llall? Ble i aros? Beth oedd yn saff i’w fwyta? Beth oedd yn werth ei weld? Fe fyddwn yn gweld torfeydd o deithwyr ifanc yn troedio’r strydoedd â’u pen yn y llyfr gan ddilyn y cynghorion fel defaid. Datblygodd rhyw batrwm o deithio trwy Japan - o Tokyo i Kyoto ac yna mlaen i ddinas Nara cyn bwrw am Hiroshima ac ynysoedd y de. Pan weles i “Here today - gone to Nara” wedi’i sgwennu fel graffiti ar wal rhyw hostel yn Kyoto fe sylweddoles i fod pawb, yn y bôn, yn dilyn yr un llwybrau ac y byddai’n syniad da gwneud ymdrech i chwilio am brofiad Siapaneaidd mwy unigryw. Dyna un rheswm pam yr es i chwilio am deml Bwdïaidd fyddai’n gadael i fi fyw ochr yn ochr gyda’r mynachod gan ddilyn eu patrwm dyddiol nhw.

A dyna sut y ces i fy hun, yn ninas Nara, yn chwynnu mewn mynwent.

Rhys mewn mynwent yn Japan

Ar ôl codi ar awr annaearol ar gyfer y myfyrdod boreol roedd yn rhaid cyflawni gorchwylion ymarferol o gwmpas y deml. Fe fues i’n golchi’r lloriau pren gyda chlwtyn gwlyb, yn ‘hoovro’ yn y brif neuadd ac yna ces fy hala mas i’r fynwent i godi chwyn gyda ffon fach bren oedd yn edrych yn debyg i ffon lolipop. Yn wahanol i Gymru, prennau ‘bamboo’ hirion sy’n dynodi beddau Siapaneaidd gyda graean yn gorchuddio’r llawr. Fy nhasg i oedd palu, yn fy nghwrcwd, gan godi pob deilen o chwyn oedd yn ymwthio i’r golwg rhwng y graean. Unwaith rô’n i wedi clirio un ardal fechan yna fe fyddwn yn symud mlaen at y bedd nesaf, ac ymlaen i’r nesaf, yn y gornel o’r fynwent a ddynodwyd i fi. Gwaith llafurus ac undonog. Ymhen hir a hwyr daeth un o’r mynachod draw a dweud ei bod yn bryd dychwelyd i’r fynachlog. Finne’n ymddiheuro, a thrïo egluro nad oeddwn i wedi gorffen clirio’r holl chwyn o’r ardal a ddangoswyd i fi. Gwenu wnaeth y mynach. Aeth ymlaen i esbonio fod chwynnu’r fynwent yn un o dasgau dyddiol y mynachod am ei fod yn eu hatgoffa’n gyson fod rhai tasgau yn ddi-derfyn. Roedd y gwaith, yn ei hanfod, yn ddi-ddiwedd a byddai chwyn newydd yn ymddangos yn ddyddiol. Wrth iddyn nhw chwynnu roedden nhw’n hyfforddi’u hymennydd i ganolbwyntio ar eu gwaith a bod hynny, yn ei dro, yn eu helpu i ganolbwyntio’r meddwl tra’n myfyrio ac felly yn ystod pob gorchwyl dyddiol. Nid “gorffen y job” oedd y nôd. Y nôd oedd ffocysu’r meddwl ar y dasg o’u blaenau a hyfforddi’r meddwl i beidio â chrwydro yn ddi-gyfeiriad. “If you are sweeping leaves - sweep leaves”.

Gorffennaf 2022...

“If you are painting a fence - paint the fence”! Mae cornel arall o’r ffens wedi’i cael cot o baent. Nôl â fi i’r tŷ a chlywed ar y radio fod cyn-brif weinidog Japan, Shinzo Abe, wedi’i saethu ar gornel stryd, a hynny yn ninas Nara. Dwi’n cofio temlau’r ddinas, a’r parc enwog lle mae’r ceirw dof yn byw, a dwi’n synnu fod gweithred mor ffyrnig a threisgar wedi digwydd mewn cymuned mor foesgar a heddychlon. Ond dyna ni. Siawns nad yw’r gwaith o feithrin goddefgarwch, fel erlid chwyn neu baentio ffens, byth yn dod i ben.

ODLAU'R GARTH

Y gair olaf, fel arfer, i'r beirdd. Dau gyfraniad y tro hwn:
Y gerdd gyntaf gan Martin Huws, Ffynnon Taf – ei delyneg fuddugol yn Eisteddfod Cymdeithas Ceredigion.

Trwy gil y drws

Mehefin

Yng ngwâl y seler
y bygythiai'r Bwci Bo.
Pryd o dafod Mam.

Gorffennaf

'Bola tost,' medd hi.
Estyn am dabled arlleg,
moddion at bob clwyf.

Awst

Meddwa ar heulwen
ond heddi fe gilia hi
i noddfa cysgod.

Medi

Y dyddie'n byrhau.
Daw dihiryn y gaea
i gipio gwystlon.

Hydref

Troi a throi a throi
wrth whilo am le parco.
'Jiw, ma' ishe gras.'

Tachwedd

'Wyt ti'n gwella, Mam?'
Ei gwên yn sownd mewn albwm.
Ma' hi yn gwbod.

Rhagfyr

Daw hon mewn cot wen
i gytsho'n dynn yn llaw Mam.
Ddylen i fentro?

Ionawr

Y pwyse'n sigo.
Llun ar wal ward: pelydrau'n
treiddio cymylau.

Chwefror

Diheintydd ar drai:
rhywun yn dod, yr heliwr
yn nes at ei brae.

Mawrth

Taith hir nôl i'r tŷ,
i'r angor ymhob storom.
Llonydd yn rhythu.

Ebrill

Pipo, yn ddi-baid
gweai gardigan babi.
Bywyd yn raflo.

Martin Huws

...ac, i gloi, ychydig o ddireidi yng nghwmni Gwerfyl Thomas, Creigiau, fu'n brysur iawn yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr ar hyd y blynyddoedd, ac yn garedig iawn wedi caniatáu i ni gael defnyddio'r barodi hon:

Parodi ar 'Cwm Pennant' (Eifion Wyn)

O gesail y gadair freichiau
Man tecaf y bydoedd yw –
Cartre' Wil Tomos a Lisi
A'r plantos o'u cwmpas yn griw.
Ni feddaf led pawen ohono,
Na chymaint â chorryn na phry',
Ond byddaf yn teimlo fin nos wrth y tân
Mai arglwyddes yr aelwyd wyf i.

Hoff gen i fy nghartre' cysurus
A'm gwely'n y gornel wrth law,
Fy masged a'i glustog arbennig
A'r 'hambwrdd' sy'n derbyn be' ddaw.
Os llet'with yw'r fflap i fynd drwyddo,
Gan nad yw y drws led y pen,
'S dim croeso i neb ond y fi 'no,
Myfi sydd â choler fach wen.

Os af i ar ambell ddygwyl
Am dro i gyffiniau'r ardd,
Ymestyn y byddaf i yno
Yng ngwres yr haul melyn, hardd,
Breuddwydio am hufen a llygod
A physgod mawr tew wrth fy mhen,
Cyn ei throi hi i'r tŷ drwy'r hen gatfflap,
Myfi â fy ngholer fach wen.

Mi garaf y cartre lle'm magwyd
Tra medraf fi garu dim,
Mae'r fasged, y glustog a'r gadair
O hyd yn fwy annwyl im;
A byddaf yn meddwl bob bore,
Â'm grwndi yn atsain yn gry'
Mor freintiedig yw Wiliam a Lisi
O gael cath sydd yn addurn i'w tŷ.

Gwerfyl Thomas